Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Llwybrau Cerdded
# Bwlch Nant yr Arian
## Walking Trails



## Cerdded ym Mwlch Nant yr Arian

**Wedi ei leoli ar ben bryn dramatig, yn pontio’r ffin rhwng yr iseldir a’r ucheldir, mae Bwlch Nant yr Arian yn ymfalchïo yn rhai o’r teithiau cerdded mwyaf golygfaol yng Nghymru. Mae’r ddau lwybr hyn, sydd ag arwyddion, yn gyfle i flasu posibiliadau cerdded ardderchog yr ardal.**

Mae’n dal yn bosibl gweld olion y diwydiant cloddio plwm ar hyd y llwybrau hyn: cerddwch ar hyd hen ffos oedd yn cario dŵr o lynnoedd yr ucheldir i’r mwyngloddiau plwm yn y dyffryn isod. Heddiw, mae llus a grug yn gorchuddio’r bryniau tra bod barcutiaid coch urddasol yn hedfan uwchben.

Mae arwyddion clir ar bob cyffordd ar y llwybrau. Ceir yma ddringfeydd a disgynfeydd hir a serth ar hyd y ddau lwybr. At ei gilydd, mae’r arwynebau mewn cyflwr da ond gall fod yn arw a gwlyb mewn mannau ac mae rhannau o’r llwybrau yn agored i’r tywydd. Rydym yn argymell eich bod yn gwisgo esgidiau cerdded gyda gafael da a dillad addas ar gyfer y tywydd.



## Llwybr y Grib / Ridgetop Trail




Dilynwch yr arwyddion coch

Follow the red waymarker symbol

**Cymedrol**
Pellter: 3 milltir/5km
Amser: 2 awr
Dringo: 80m

**Moderate**
Distance: 3 miles/5km
Time: 2 hour
Climb: 80m

### Llwybr y Grib

Dyma’r hiraf o’r llwybrau sydd ag arwyddion, gyda golygfeydd godidog sy’n gwneud pob cam yn werth chweil. Dilynwch yr arwyddion i fyny at y grib sydd wedi ei orchuddio â grug a mwynhewch y golygfeydd o Fae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria. Ewch heibio i’r arsyllfa garreg cyn cerdded i lawr trwy’r coed. Ewch tua’r chwith yn y gyffordd nesaf, ac yma ymunwch â’r llwybr ffrwd main a ddaw â chi’n ôl at y maes parcio.

### Ridgetop Trail

The longest of our waymarked trails, with magnificent views making every step worthwhile. Follow the red waymarkers up onto the heather clad ridge and enjoy the views of Cardigan Bay and the Cambrian Mountains. Head past the stone viewpoint before dropping down through the trees. Bear left at the next junction and then join the narrow leat path which will bring you back to the car park.

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741. 2014

## Llwybr y Mwynwyr / Miners Trail




Dilynwch yr arwyddion melyn

Follow the yellow waymarker symbol

**Cymedrol**
Pellter: 1.5 milltir/2.4km
Amser: 1 awr
Dringo: 60m

**Moderate**
Distance: 1.5 miles/2.4km
Time: 1 hour
Climb: 60m

### Llwybr y Mwynwyr

Dilynwch yr arwyddion melyn o’r olygfan i lawr ar hen ffos fwyngloddio. Yn y gyffordd nesaf ewch i’r dde i fyny’r rhiw ac at y grib. Cerddwch at Gadair y Cawr sy’n lle gwych i edrych ar yr olygfa. O’r fan yma ewch i lawr ac ar draws ffordd y goedwig ac i mewn i ardal sydd wedi cael ei phlannu’n ddiweddar â 12,000 o goed brodorol. Ewch i lawr tuag at y llyn ac yna yn ôl i’r ganolfan ymwelwyr.

### Miners Trail

Follow the yellow waymarkers from the viewpoint down to an old mining leat. At the next junction bear right up the hill and onto the ridgetop. Walk towards our Giant’s Chair, a great place to take in the view. From here drop down across a forest road and into an area which has recently been planted with 12,000 native trees. Head down towards the lake and then back to the visitor centre.

This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty’s Stationary Office © Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741. 2014



## Walking at Bwlch Nant yr Arian

**Perched on a dramatic hilltop, straddling the boundary between the lowlands and uplands, Bwlch Nant yr Arian boasts some of the most scenic walks in Wales. These waymarked trails offer a fantastic taste of the walking possibilities in the area.**

Remnants of the lead mining industry are still visible along these trails: walk along an old leat which carried water from the upland lakes to the lead mines in the valleys below. Today, bilberry and heather cover the hills whilst majestic red kites circle above.

The trails are on well-defined paths with waymarker posts at every junction. Both trails have long and steep climbs and descents. The surfaces are generally in good condition but may be rough and wet in places and parts of the trails are very exposed to the weather. We recommend that you wear walking shoes with a good grip and adequate clothing for the weather.



www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

MYNYDDOEDD CAMBRIAN MOUNTAINS

Cymru Wales – Atyniad Ardystiedig / Accredited Attraction

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government